# RHAN 5

# CODAU A PHROTOCOLAU

**RHAN 5.1**

## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

## CÔD YMDDYGIAD I AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG

### RHAN 1

### DEHONGLIAD

**1.** 1)Yn y côd hwn —

ystyr “aelod cyfetholedig” yng nghyswllt awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod, ond sydd —

(a) yn aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw un o gyd-bwyllgorau neu gyd is-bwyllgorau'r awdurdod, gan gynrychioli'r awdurdod ar y pwyllgor hwnnw, ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw un o gyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr “cyfarfod" yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd o'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd is-bwyllgor o'r awdurdod perthnasol neu unrhyw gyfryw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd is-bwyllgor o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd o'r awdurdod, neu

(d) lle mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol, heblaw cyfarfod o grŵp gwleidyddol a gynullwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990, ac yn cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun yn ymarfer un o swyddogaethau'r awdurdod;

oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, mae “aelod” yn cynnwys aelod cyfetholedig;

mae i “nodweddion gwarchodedig” yr ystyr a roddir i “protected characteristics” yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

ystyr "cymdeithas gofrestredig" yw cymdeithas, ac eithrio cymdeithas sydd wedi'i chofrestru'n undeb credyd, sydd:-

(a) yn gymdeithas gofrestredig o fewn ystyr adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014; neu

(b) yn gymdeithas sydd wedi'i chofrestru neu y bernir ei bod wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" yw'r gofrestr sydd wedi'i sefydlu a'i chynnal o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “awdurdod perthnasol" yw —

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(d) awdurdod tân ac achub a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo,

(e) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

mae "chi" yn cyfeirio atoch chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol; ac

mae “eich awdurdod” yn cyfeirio at yr awdurdod perthnasol yr ydych yn aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono.

(2) Yng nghyswllt cyngor cymuned:-

(a) ystyr “swyddog priodol” yw swyddog o’r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; ac

(b) ystyr "pwyllgor safonau" yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y mae ganddo swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## RHAN 2

# DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

**2.** (1) Ac eithrio lle bo paragraff 3(a) yn berthnasol, rhaid i chi lynu at y côd ymddygiad hwn:-

(a) pryd bynnag y byddwch yn gwneud gwaith eich awdurdod, neu yn bresennol mewn un o'i gyfarfodydd;

(b) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod yr etholwyd neu y penodwyd chi iddi;

(c) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd i'ch awdurdod; neu

(d) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, yng nghyswllt ymddygiad a nodwyd ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y côd hwn ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodwyd o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â Chymru.

**3.** Lle byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu

(a) ar unrhyw awdurdod arall perthnasol, neu unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol mae'n rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod neu'r corff arall; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd ynghylch ymddygiad ei aelodau, mae'n rhaid i chi, wrth weithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio ac i'r graddau y mae hynny'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill y gall y corff arall hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt.

**4.** Rhaid i chi:-

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb, heb ystyried "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol".

(b) dangos parch ac ystyriaeth i eraill;

(c) peidio â defnyddio ymddygiad bwlio nac aflonyddu ar neb; a

(d) peidio â gwneud dim sydd yn peryglu, neu sy'n debygol o beryglu, natur ddiduedd y rhai sy'n gweithio i'ch awdurdod, neu ar ei ran.

**5.** Rhaid i chi beidio â:-

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y dylid yn rhesymol ei hystyried fel gwybodaeth gyfrinachol, heb ganiatâd penodol rhywun a awdurdodwyd i roi caniatâd o'r fath, oni bai bod y gyfraith yn gofyn bod hynny'n digwydd;

(b) atal neb rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w derbyn yn ôl y gyfraith.

**6.** 2) Rhaid i chi:-

(a) beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar eich swyddfa nac ar eich awdurdod;

(b) rhoi gwybod, p'un ai trwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod, neu yn uniongyrchol i'r awdurdod priodol, am unrhyw ymddygiad gan aelod arall

neu unrhyw un arall sy'n weithio i'ch awdurdod, neu ar ei ran, yr ydych chi'n credu'n rhesymol ei fod yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys ymddygiad troseddol (at ddibenion y paragraff hwn nid yw hynny'n cynnwys troseddau nac ymddygiad y gellir ei gosbi â chosb sefydlog);

(c) rhoi gwybod i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall yr ydych yn credu'n rhesymol sy'n torri'r côd ymddygiad hwn;

(d) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod, neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'u pwerau statudol eu hunain.

**7.** Rhaid i chi beidio —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, â defnyddio neu geisio defnyddio eich swydd yn amhriodol i sicrhau i chi eich hunan, neu i unrhyw un arall, fantais, neu greu neu osgoi anfantais i chi eich hun, neu i unrhyw un arall;

(b) â defnyddio, neu awdurdodi eraill i ddefnyddio, adnoddau eich awdurdod:-

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) mewn modd heblaw am yr hyn a gynlluniwyd i hwyluso, neu i gynorthwyo, cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

**8.** Rhaid i chi:-

(a) wrth gyfranogi mewn cyfarfodydd neu ddod i benderfyniadau ynghylch busnes eich awdurdod, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd, gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarparwyd gan swyddogion eich awdurdod, yn arbennig gan —

(i) Brif Weithredwr yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef/â hi pan fydd unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a gynigir yn gorwedd oddi mewn i'r fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu lle gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu gweithredu gan yr awdurdod arwain at ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau am bob penderfyniad, yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion ychwanegol rhesymol a bennir gan eich awdurdod.

**9.** Rhaid i chi:-

(a) gadw at y gyfraith a rheolau eich awdurdod ar gyfer hawlio treuliau a lwfansau yng nghyswllt eich dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn gan neb roddion, lletygarwch (heblaw lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu ginio gwaith a awdurdodwyd yn briodol gan eich

awdurdod), fanteision materol neu wasanaethau i chi eich hun neu unrhyw un arall a allai eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu greu argraff resymol o'r sefyllfa honno.

## RHAN 3

## BUDDIANNAU

### Buddiannau Personol

**10.** a) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn gofyn eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.

(1) Rhaid i chi farnu bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw agwedd ar fusnes eich awdurdod os —

(a) yw'n ymwneud â, neu'n debygol o effeithio ar -

(i) unrhyw gyflogaeth neu fusnes sydd gennych;

(ii) unrhyw un sydd yn eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw gwmni yr ydych yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr taledig iddo;

(iii) unrhyw un, heblaw eich awdurdod, sydd wedi gwneud taliad i chi yng nghyswllt eich ethol, neu unrhyw dreuliau a ddaeth i'ch rhan wrth gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lleoliad busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych fuddiant manteisiol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n werth mwy na £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau'r corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chi neu gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr taledig arno, neu gorff o'r disgrifiad a bennwyd yn is-baragraff (iv) uchod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant manteisiol ynddo, ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno, ac y mae'r tenant yn gwmni yr ydych yn bartner ynddo, yn gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr taledig arno, neu yn gorff o'r disgrifiad a bennwyd yn is-baragraff (iv) uchod;

(viii) unrhyw gorff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(ix) unrhyw:-

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff a luniwyd at ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn gyhoeddus neu bolisi;

(dd) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(ee) glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod yr ydych yn aelod ohonynt neu'n dal swydd reoli gyffredinol ynddynt;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 niwrnod neu gyfnod hwy;

(b) diddymwyd gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2016

(c) gellid barnu yn rhesymol bod penderfyniad yn ei gylch yn effeithio ar —

(i) eich lles neu eich sefyllfa ariannol, neu les neu sefyllfa ariannol rhywun sy'n byw gyda chi, neu unrhyw un y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw;

(ii) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan bobl fel y disgrifiwyd yn 10(2)(c)(i);

(iii) unrhyw berson sydd yn cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw gwmni y maent yn bartner ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesol ynddo mewn dosbarth o warantau sy'n werth mwy na'r £5,000 sylfaenol; neu

(v) unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (ee) y mae'r personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) yn dal swydd reoli gyffredinol ynddo, i raddau mwy na mwyafrif y canlynol-

(aa) yn achos awdurdod sydd â rhanbarthau etholiadol neu wardiau, trethdalwyr eraill y cyngor, trethdalwyr neu drigolion y rhanbarth etholiadol neu'r ward, fel y bo'r achos, y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, trethdalwyr eraill y cyngor, trethdalwyr neu drigolion ardal yr awdurdod.

## Datgelu Buddiannau Personol

**11.** (1) Lle bo gennych fuddiant personol mewn unrhyw elfen o waith eich awdurdod, ac rydych yn mynychu cyfarfod lle caiff y gwaith hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant dan sylw cyn yr ystyriaeth honno neu ar ei chychwyn, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Lle bo gennych fuddiant personol mewn unrhyw elfen o waith eich awdurdod ac rydych yn gwneud -

(a) sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacsimile neu fath arall ar gyfathrebu electronig) i aelod neu swyddog yn eich awdurdod ynghylch y

gwaith hwnnw, dylech gynnwys manylion y buddiant dan sylw yn eich gohebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu ar ffurf rhyw fath ar gyfathrebu electronig) i aelod neu swyddog yn eich awdurdod, dylech ddatgelu'r buddiant ar gychwyn sylwadau o'r fath, neu pan ddaw yn amlwg i chi bod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau eich sylwadau a'ch buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod i gyflwyno'r sylwadau.

(3) Yn amodol ar baragraff 14(1)(b) isod, lle bo gennych fuddiant personol mewn unrhyw elfen o waith eich awdurdod ac rydych wedi gwneud penderfyniad wrth ymarfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi, yng nghyswllt y gwaith hwnnw, sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, yng nghyswllt buddiant personol nas datgelwyd yn flaenorol, cyn neu yn union wedi diwedd cyfarfod lle gwneir y datgeliad yn unol ag is-baragraff 11(1), hysbysu eich awdurdod yn ysgrifenedig, yn unol ag unrhyw ofynion a bennwyd gan swyddog monitro eich awdurdod, neu swyddog priodol eich Awdurdod mewn perthynas â Chyngor Cymuned, o bryd i'w gilydd, ond gan gynnwys o leiaf y canlynol:-

(a) manylion y buddiant personol;

(b) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef; ac

(c) eich llofnod.

(5) Lle bo gennych gytundeb gan eich swyddog monitro bod y wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan baragraff 11 yma i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, boed hynny ar lafar neu yn ysgrifenedig, i gael eu disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod natur y buddiant personol hwnnw yn wybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), bernir bod buddiant personol wedi cael ei ddatgelu'n flaenorol yn unig os darparwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r côd hwn ers dyddiad diwethaf eich ethol, eich penodi neu eich enwebu yn aelod o'ch awdurdod.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), lle na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw, bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

## Buddiannau Rhagfarnol

**12**. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, lle bo gennych fuddiant personol mewn unrhyw elfen o waith eich awdurdod, bydd gennych hefyd fuddiant rhagfarnol yn y busnes hwnnw os yw'r buddiant yn un y byddai aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol yn barnu'n rhesymol ei fod yn ddigon arwyddocaol i fod yn debygol o ddylanwadu'n ormodol ar eich barn ynghylch lles y cyhoedd.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), ni fernir bod gennych fuddiant rhagfarnol mewn unrhyw fusnes lle bo'r busnes hwnnw:-

(a) yn ymwneud â'r canlynol:-

(i) awdurdod arall perthnasol yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur y mae gennych swydd reoli gyffredinol ynddo;

(iii) corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(iv) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (lle na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod), oni bai bod hynny'n ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych yn llywodraethwr ynddi;

(v) eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol lle na chawsoch eich penodi na'ch enwebu gan eich awdurdod;

(b) yn ymwneud â'r canlynol:-

(i) swyddogaethau tai eich awdurdod lle bo gennych denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, cyhyd ag nad oes gennych ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis gyda'ch awdurdod, a chyhyd ag nad yw'r swyddogaethau hynny'n benodol gysylltiedig â'ch tenantiaeth neu eich prydles;

(ii) swyddogaethau eich awdurdod yng nghyswllt prydau ysgol, cludiant a chostau teithio, lle rydych yn warcheidwad, yn rhiant, yn dadcu neu famgu, neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989) i blentyn mewn addysg amser llawn, oni bai bod hynny'n ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn dan sylw yn mynd iddi;

(iii) swyddogaethau eich awdurdod yng nghyswllt tâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol a Budd-daliadau 1992, pan fyddwch yn derbyn tâl o'r fath, neu yn gallu ei hawlio gan eich awdurdod;

(iv) swyddogaethau eich awdurdod yng nghyswllt lwfans neu daliad a wnaed yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 neu lwfans neu bensiwn a ddarparwyd o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) eich rôl fel cynghorydd cymuned yng nghyswllt grant, benthyciad neu gymorth ariannol arall a roddwyd gan eich cyngor cymuned i fudiadau cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r eithriadau yn is-baragraff (2)(a) yn berthnasol lle bo'r busnes yn ymwneud â phennu unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd, neu gofrestriad.

## Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

**13.** Bydd gennych hefyd fuddiant rhagfarnol mewn unrhyw fusnes sydd gerbron pwyllgor trosolwg a chraffu yn eich awdurdod (neu is-bwyllgor y cyfryw bwyllgor), lle bo'r:-

(a) busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei roi ar waith ai peidio), neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth neu fwrdd eich awdurdod, neu un arall o'i bwyllgorau, ei is-bwyllgorau, ei gyd-bwyllgorau neu ei gyd is-bwyllgorau; a

(b) lle roeddech, ar adeg gwneud y penderfyniad neu gymryd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd is-bwyllgor y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam.

## Cyfranogiad yng Nghyswllt Buddiannau a Ddatgelwyd

**14.** b) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3), a (4), lle bo gennych fuddiant rhagfarnol mewn unrhyw elfen o fusnes eich awdurdod rhaid i chi, oni bai eich bod wedi sicrhau gollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod:-

(a) adael yr ystafell, y siambr neu'r man lle mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:-

(i) lle bo is-baragraff (2) yn berthnasol, yn union wedi i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynghylch y busnes ddod i ben, ac yn sicr cyn cychwyn ystyriaeth bellach ar y busnes dan sylw, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod dan sylw;

(b) peidio ag ymarfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd yng nghyswllt y busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(d) peidio â chyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacsimile neu fath arall ar gyfathrebu electronig) yng nghyswllt y busnes hwnnw; ac

(e) peidio â chyflwyno unrhyw sylwadau llafar (boed hynny yn bersonol neu trwy ryw fath ar gyfathrebu electronig) yng nghyswllt y busnes hwnnw, neu roi'r gorau ar unwaith i'r cyfryw sylwadau llafar pan ddaw'r buddiant rhagfarnol i'r amlwg.

(2) Lle bo gennych fuddiant rhagfarnol mewn unrhyw elfen o fusnes eich awdurdod cewch fynychu cyfarfod at ddibenion cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynghylch y busnes yn unig, cyhyd â bod y cyhoedd hefyd yn cael mynychu'r cyfarfod at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) Lle bo gennych fuddiant rhagfarnol mewn unrhyw elfen o fusnes eich awdurdod cewch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod yn ymwneud â'r busnes hwnnw, cyhyd â bod y cyhoedd hefyd yn cael mynychu'r cyfarfod at ddibenion cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynghylch y busnes, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(2B) Wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o dan is-baragraff (2A) rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y mae eich awdurdod yn ei mabwysiadu o bosibl ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich atal rhag mynychu cyfarfod a chyfranogi ynddo os

(a) oes gofyn eich bod yn bresennol mewn cyfarfod o bwyllgor trosolwg neu graffu, yn sgil y cyfryw bwyllgor yn ymarfer ei bwerau statudol; neu

(b) bod gennych fantais gollyngiad, cyhyd â'ch bod —

(i) yn nodi yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a’ch bod

(ii) cyn, neu yn union wedi diwedd y cyfarfod, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn cynnwys —

(aa) manylion y buddiant rhagfarnol;

(bb) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef;

(cc) manylion rhoi'r gollyngiad, a dyddiad ei roi; a

(dd) eich llofnod.

(4) Lle bo gennych fuddiant rhagfarnol ac rydych yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod, gan ddibynnu ar ollyngiad, rhaid i chi ddarparu manylion y gollyngiad yn y cyfryw sylwadau ysgrifenedig neu lafar, ac yn yr ail achos, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod o fewn 14 diwrnod i gyflwyno'r sylwadau.

## RHAN 4
## COFRESTR O FUDDIANNAU’R AELODAU

### *Cofrestru Buddiannau Personol*

**15**. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod i —

(a) fabwysiadu côd ymddygiad eich awdurdod neu gymhwyso darpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn i'ch awdurdod; neu

(b) eich ethol neu eich penodi i swydd (os yw hynny'n hwyrach), gofrestru eich buddiannau personol, lle bônt yn syrthio i gategori y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau’r aelodau, trwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Rhaid i chi, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4) o fewn 28 diwrnod i ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n syrthio i gategori y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau’r aelodau, trwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Rhaid i chi, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4) o fewn 28 diwrnod i ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol cofrestredig sy'n syrthio i gategori y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau’r aelodau, trwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich awdurdod, neu i swyddog priodol eich awdurdod yn achos cyngor cymuned.

(4) Nid yw is-baragraffau (1), (2) a (3) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn berthnasol os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sydd yn gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod o'r cyfryw awdurdod.

(6) Rhaid i chi, wrth ddatgelu buddiant personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, gofrestru'r buddiant personol hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau, trwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich awdurdod, neu i swyddog priodol eich awdurdod yn achos cyngor cymuned

## Gwybodaeth Sensitif

**16.** (1) Lle barnwch fod y wybodaeth ynghylch unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, ac mae swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes rhaid i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r buddiant hwnnw, neu, fel y bo'r achos, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod i ddod yn ymwybodol o unrhyw newid amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (1) yn sensitif bellach, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod, neu swyddog priodol eich awdurdod mewn perthynas â chyngor cymuned, yn gofyn am gynnwys y wybodaeth yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau aelodau.

(3) Yn y côd hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" yw gwybodaeth y mae ei darparu i'r cyhoedd ei harchwilio yn creu, neu yn debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi wynebu trais neu fygythiad.

## Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

**17.** Rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod i dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, budd materol neu fantais sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod, neu i swyddog priodol eich awdurdod mewn perthynas â chyngor cymuned, ynghylch bodolaeth a natur y rhodd, y lletygarwch, y budd materol neu'r fantais dan sylw.